Daeth symudiad rhydd rhwng y DU a'r UE i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Ar 1 Ionawr 2021, rhoddodd y DU system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau ar waith.

Dylai pobl nad oeddent yn preswyllo yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 ac sy'n dymuno dod i weithio yng Nghymru fynd i [System fewnfudo'r DU yn seiliedig ar bwyntiau: gwybodaeth ar gyfer dinasyddion yr UE](#) am fwy o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio neu astudio yn y DU.

Gall gwladolion yr UE a'u teuluoedd sydd yn dod i'r DU i weithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol ac sydd wedi talu'r Gordal Iechyd Mewnfudo fel rhan o'u fisa mynediad hawlio ad-daliad o'r Gordal Iechyd Mewnfudo. I fod yn gymwys, mae'n rhaid iddynt fod yn gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, i gwmni neu sefydliad cymwys, o leiaf 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd wedi ei gyfrifo dros gyfnod o 6 mis a ddechreuodd ar neu ar ôl 31 Mawrth 2020. Gallant wneud cais am ad-daliad ar gyfer eu hunain a'u plant. Telir yr ad-daliadau mewn rhandaliadau ôl-ddyledus, gydag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn rheoli'r cynllun ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Mae mwy o fanylion yn ymwneud ag ad-daliadau ar gael ar wefan Llywodraeth y DU: [www.gov.uk/apply-immigration-health-surcharge-refund/healthcare-setting](http://www.gov.uk/apply-immigration-health-surcharge-refund/healthcare-setting)

## 18. A allai nifer gwladolion yr UE a gyflogir gan GIG Cymru gael ei effeithio nawr bod y DU wedi gadael yr UE?

Mae cyflogwyr iechedd a gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithio'n galed i sicrhau gwladolion yr UE sydd yn gweithio yng Nghymru eu bod yn aelodau gwerthfawr o'r gweithlu, ac wedi annog a chefnogi staff i wneud cais am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

O Ionawr 2021, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno [system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau](#) sydd yn berthnasol i bawb nad ydynt yn wladolion y DU sydd yn dymuno byw a gweithio yn y DU. Bydd angen i gyflogwyr roi gweithdrefnau ar waith ar gyfer gwirio hawl staff i weithio yn y DU a gall fod angen i ddinasyddion yr UE allu profi eu hawliau. Mae manylion y system fewnfudo newydd wedi cael eu cyhoeddi, yn cynnwys [Fisa Iechyd a Gofal \(HCV\)](#) fydd yn rhoi gweithwyr iechedd a gofal ar lwybr carlam. Fodd bynnag, nid yw swyddi gofal cymdeithasol allweddol wedi eu cynnwys, fydd yn achosi ['ymyl clogwyn i weithlu'](#) cyrff gofal cymdeithasol, yn ôl Clymblaid Cavendish. Mae mwy o wybodaeth am system fewnfudo y DU yn seiliedig ar bwyntiau ar gael yn <https://www.gov.uk/guidance/the-uks-points-based-immigration-system-information-for-eu-citizens>.

Comisiynodd Conffederasiwn GIG Cymru Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i feysydd gweithlu iechedd a gofal cymdeithasol Cymru sydd yn debygol o fod fwyaf agored i niwed o ganlyniad i gynigion mewnfudo Llywodraeth y DU yn y dyfodol a sut gallai effeithio ar ymdrechion recriwtio a chadw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r [adroddiad](#) yn canfod, hyd yn oed ar ôl addasiadau i bolisi mewnfudo y DU, na fyddai rhai gwladolion yr UE yn gymwys i weithio yn y GIG yng Nghymru (tua 1% o'r gweithlu presennol), gan awgrymu bod effaith fach ond arwyddocaol ar recriwtio yn y dyfodol yn debygol ar gyfer swyddi fel gyrwyr ambiwlans, cynorthwywyr meddygfeydd deintyddol, gweithwyr cymorth gofal cymdeithasol, gweithwyr cymorth gofal iechedd/cynorthwywyr gofal iechedd, cynorthwywyr gofal brys, a chynorthwywyr fferyllfeydd.

Nododd yr adroddiad hefyd fod goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol yn debygol o fod yn fwy difrifol. Bydd llai o swyddi yn gymwys ar gyfer yr HCV neu'r fisa Gweithiwr Medrus am eu bod wedi eu labelu'n swyddi 'sgiliau isel', ac mae trosiant uwch staff yn y sector yn cyflwyno heriau penodol, gyda sgîl-ffeithiau i'r GIG. Y neges glir o Gymru yw bod y swyddi hyn yn hanfodol ac ni ddylid eu hanghofio wrth roi rheolau newydd ar waith. Er bod y cynigion mewnfudo yn fwy ffafriol ar gyfer recriwtio i'r GIG, mae angen ystyried y sector gofal cymdeithasol hefyd.

Mae datblygu system iechedd a gofal cymdeithasol integredig sydd yn canolbwyntio ar bartneriaeth a gweithio cydweithredol ar draws pob sector yn un o'r heriau y mae'r system iechedd a gofal yng Nghymru'n ei hwynebu. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau sylweddol wedi bod o ran gallu a galw am wasanaethau gofal ac mae pandemig Coronafeirws wedi gwaethygu'r broblem hon. Mae angen, felly, i unrhyw oblygiadau i iechedd a gofal cymdeithasol yn sgîl y system fewnfudo newydd, gael eu monitro, er mwyn sicrhau nad yw'r pwysau'n gwaethygu ymhellach.

## **19. Pa drefniadau sydd yna ar gyfer cyfathrebu negeseuon allweddol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol?**

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gynllun cyfathrebu ar waith gyda'r nod o sicrhau bod rhanddeiliaid a staff iechyd a gofal cymdeithasol, a'r cyhoedd, yn cael gwybodaeth glir ac wedi ei diweddarau ynghylch y DU yn ymadael â'r UE. Mae dull rhaeadru wedi bod ar waith i helpu i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu lledaenu'n effeithiol, a bydd hyn yn parhau i gael ei ddefnyddio i gyfathrebu datblygiadau allweddol. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cael ei diweddarau gyda gwybodaeth newydd, ac mae tudalennau sy'n benodol ar gyfer y cyhoedd yn cael eu cynnal ar wefan Llywodraeth Cymru – [Paratoi Cymru.](#)

## **20. A fydd cymhwyster proffesiynol yr UE yn dal i gael ei gydnabod yn y DU gan ein bod bellach wedi gadael yr UE?**

Mae'r cytundeb rhwng y DU a'r UE yn fframwaith i ddarparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol (MRPQ), er nad yw'n mynd mor bell ag annog sefydlu cytundebau cydnabyddiaeth gilyddol.

Mae 'cyfnod segur' o hyd at ddwy flynedd wedi ei sefydlu lle mae cymwysterau proffesiynol gofal iechyd yr UE ac Ardal Economaidd Ewrop/y Swistir yn dal i gael eu cydnabod yn y DU. Ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yng nghytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir, mae'r cyfnod hwn yn ymestyn i bedair blynedd ac yn berthnasol i weithwyr proffesiynol sy'n dymuno gweithio yn y DU yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno gweithio yn y Swistir. Fodd bynnag, dylai gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso yn y DU sy'n dymuno darparu gwasanaethau yng ngweddill Ardal Economaidd Ewrop o 1 Ionawr 2021 ymlaen geisio cydnabyddiaeth am eu cymwysterau gan ddefnyddio'r rheolau cenedlaethol yn Aelod-wladwriaethau'r UE.

Fel rhan o gytundeb y DU/UE, bydd rheoleiddwyr proffesiynol fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gallu gweithio gyda'u cydweithwyr cyfatebol yn yr UE i gytuno ar broses ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn nhiriogaethau ei gilydd yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i reoleiddwyr drafod Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol (MRA) neu ddefnyddio llwybrau cydnabyddiaeth trydydd gwledydd i gydnabod cymwysterau'r UE.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU, y Llywodraethau Datganoledig eraill a rheoleiddwyr ar ddatblygiad trefniadau tymor hwy.

**[Cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyllid Ewropeaidd arall](#)**

## **21. Beth yw'r sefyllfa ar gyllid ymchwil yn y dyfodol a chronfeydd eraill yr UE, gan fod cytundeb bellach yn ei le rhwng y DU a'r UE?**

Roedd y Cytundeb Ymadael a drafodwyd rhwng y DU a'r UE yn 2019 yn gofalu y bydd sefydliadau'r DU, fel elusennau, busnesau a phrifysgolion, yn parhau i dderbyn cyllid yn ystod oes y prosiect os gwnaethant gais llwyddiannus ar gyfer rhaglenni a ariennir gan yr UE cyn diwedd 2020. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gall sefydliadau'r DU sydd wedi bod yn derbyn dyfarniadau grant Trydedd Rhaglen Iechyd UE, barhau i gymryd rhan mewn prosiectau sydd eisoes ar y gweill, nes iddynt ddod i ben.

Yn unol â'r trefniadau newydd gyda'r UE, mae'r DU yn cymryd rhan yn rhaglen ymchwil ac arloesi Horizon Ewrop fel 'gwlad gyswllt', sydd yn fras yn golygu ei bod yn cymryd rhan yn y rhaglen (sydd yn rhedeg o 2021-27) fel pe bai yn aelod-wladwriaeth o'r UE. Bydd cyfranogiad yn cefnogi partneriaethau parhaus rhwng arbenigwyr ymchwil a gwyddoniaeth y DU ac Ewrop. Anogir ymchwilwyr a busnesau Cymru i ffurfio partneriaethau cydweithredol â chymheiriaid rhyngwladol a pharatoi cais ar gyfer cyfleoedd perthnasol wrth iddynt ddod ar gael o dan y rhaglen. Ar gyfer derbynwyr cyllid presennol Horizon 2020 yn y DU, bydd y telerau ac amodau yn aros yr un peth ag y cytunwyd yn flaenorol yn unol â'r Cytundeb Ymadael.

Gan fod y DU bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, ni fydd bellach yn derbyn cyllid strwythurol (sydd yn werth tua £2.1 biliwn y flwyddyn). Mae cyllid eleni wedi cael ei ddefnyddio i hybu sawl agwedd ar ddatblygu economaidd, yn cynnwys cymorth i fusnesau, cyflogaeth ac amaethyddiaeth ac mae wedi cael ei weinyddu gan wledydd gwahanol y DU. Er mwyn darparu cyllid yn lle hwn, mae Llywodraeth y DU wedi addo sefydlu [Cronfa Ffyniant Gyffredin](#) yn y DU i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau. Disgwylir iddi gael ei lansio yn 2022. Yn y cyfamser, mae Cronfa Adfywio Cymunedol gwerth £220 miliwn wedi cael ei sefydlu yn y DU gyda'r bwriad o helpu ardaloedd lleol i roi ymagweddau a rhaglenni newydd ar brawf i fynd i'r afael â heriau lleol, er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Yng Nghymru, mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i ddatblygu Fframwaith newydd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, sydd yn cynnwys mwy o rôl i ranbarthau wrth wneud penderfyniadau ar y ffordd y mae arian yn cael ei wario. Cyhoeddwyd y Fframwaith ym mis Tachwedd 2020 a'i fwriad yw ysgogi gweledigaeth gyffredin ar gyfer buddsoddi rhanbarthol. Un o'r amcanion strategol yn y Fframwaith yw 'Cymunedau lachach, Tecach, Mwy Cynaliadwy.'

## **22. A fydd Llywodraeth Cymru yn ariannu cymorth gweinyddol ar gyfer y gwaith ychwanegol sydd yn ofynnol gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol?**



Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru ariannu cymorth gweinyddol ar ran sefydliadau unigol. Mae Llywodraeth Cymru yn flaenrol wedi rhoi cymorth trwy Gronfa Bontio'r UE i nifer o sefydliadau yn ystod cyfnodau amrywiol proses Bontio'r UE, yn cynnwys Conffederasiwn GIG Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn parhau i weithio gyda sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i ystyried a rheoli goblygiadau hirdymor trefniadau Pontio'r UE i'r sector.

## **Trefniadau Gofal Iechyd Cyfatebol**

### **23. Pa drefniadau gofal iechyd cyfatebol sydd wedi eu sefydlu ar ôl 1 Ionawr 2021?**

Mae'r cytundeb a wnaed gyda'r UE yn golygu bod y rhan fwyaf o'r trefniadau gofal iechyd cyfatebol gyda gwledydd yr UE yn parhau ac mae Cardiau Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn dal yn ddilys. Felly, mae dinasyddion yr UE yn dal wedi eu diogelu os oes ganddynt anghenion gofal iechyd brys pan fyddant mewn Aelod-wladwriaeth o'r UE.

Mae EHIC person yn dal yn ddilys hyd at y dyddiad dod i ben ar y cerdyn ac nid oes angen ei adnewyddu ar unwaith. Unwaith y bydd wedi dod i ben, gellir ei adnewyddu gyda Cherdyn Yswiriant Iechyd Byd-eang (GHIC) newydd a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU.

Mae pensiynwyr cymwys, gweithwyr rheng flaen a grwpiau penodol eraill – ac aelodau o'u teuluoedd – yn parhau i gael costau eu gofal iechyd wedi eu talu gan y DU os byddant yn symud i'r UE.

Mae pobl hefyd yn gallu cael gofal iechyd wedi ei gynllunio (a thriniaeth famolaeth) yn yr UE, gydag awdurdod ymlaen llaw i wneud hyn.

Mae pawb sydd wedi eu cynnwys yng Nghytundeb Ymadael â'r UE hefyd wedi cadw'r un hawliau gofal iechyd ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

Gall dinasyddion y DU ddefnyddio pasbort y DU i gael gofal iechyd meddygol angenrheidiol yn Norwy (er enghraifft triniaeth frys, neu i drin cyflwr sydd eisoes yn bodoli).

Cynghorir pob teithiwr o'r DU i'r UE yn gryf i gael yswiriant teithio yn ogystal â'r EHIC/GHIC, oherwydd efallai na fydd yr EHIC/GHIC yn cynnwys yr holl gostau sydd yn deillio o driniaeth feddygol angenrheidiol, er enghraifft costau dychwelyd adref.

Os yn teithio i'r Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein, dylai teithwyr y DU gael yswiriant teithio priodol gyda diogelwch gofal iechyd cyn teithio, gan sicrhau ei fod yn cynnwys cyflyrau sydd eisoes yn bodoli oedd wedi eu cynnwys yn flaenrol gan y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC).

Gallwch ddarllen cyngor yma ynghylch [prynu yswiriant teithio gyda'r diogelwch iawn](#).

#### **24. Beth fydd yn digwydd i fy Ngherdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC)?**

Yn unol â thelerau'r cytundebau a wnaed rhwng y DU a'r UE, mae'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn parhau'n ddilys i ddinasyddion y DU sydd yn teithio i wlad yn yr UE hyd nes y daw i ben. Unwaith y daw i ben, gellir ei adnewyddu gyda Cerdyn Yswiriant Iechyd Byd-eang (GHIC) a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU.

Mae EHIC yn rhoi'r hawl i gael gofal iechyd sydd yn deillio o angen brys a ddarperir gan y wladwriaeth yn ystod arhosiad dros dro yn yr UE. Gellir cael tystysgrif amnewid dros dro (PRC) os oes angen triniaeth ar berson ac nid oes ganddynt gerdyn.

Cynghorir pob teithiwr o'r DU i'r UE yn gryf i gael yswiriant teithio yn ogystal â'r EHIC/GHIC oherwydd efallai na fydd yr EHIC/GHIC yn cynnwys holl gostau triniaeth feddygol angenrheidiol e.e. costau dychwelyd adref.

Nid yw dinasyddion y DU sydd yn teithio i'r Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein bellach wedi eu cynnwys yn yr EHIC, er eu bod yn gallu defnyddio pasbort y DU i gael gofal iechyd meddygol angenrheidiol yn Norwy (er enghraifft triniaeth frys, neu i drin cyflwr sydd eisoes yn bodoli). Dylent sicrhau bod ganddynt yswiriant teithio priodol gyda diogelwch gofal iechyd cyn teithio, gan sicrhau ei fod yn cynnwys cyflyrau sydd eisoes yn bodoli oedd wedi eu cynnwys yn flaenrol gan y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC).

Mae cyngor am yswiriant teithio ar gael yn: [prynu yswiriant teithio gyda'r math cywir o ddiogelwch](#).

#### **25. EHIC wedi eu cyhoeddi gan y DU ar ôl 1 Ionawr 2021**

Gall rhai pobl wneud cais am EHIC DU newydd y gallant barhau i'w ddefnyddio ar ôl 1 Ionawr 2021 yn yr UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir. Mae pobl sydd yn gallu gwneud cais am y cerdyn newydd yn cynnwys:

- myfyrwyr y DU sydd yn astudio yn yr UE;
- rhai Pensiynwyr Gwladwriaeth Prydain sydd yn byw yn yr UE a'u teuluoedd;
- gwladolion yr UE yn y DU.

## **26. Beth yw'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Byd-eang (GHIC) newydd?**

Bydd y GHIC yn disodli'r EHIC ac yn cynnig yr un diogelwch trwy roi mynediad i breswylwyr y DU i ofal iechyd brys a meddygol angenrheidiol wrth deithio i'r UE. Mae hyn yn cynnwys triniaeth angenrheidiol ar gyfer cyflwr sydd eisoes yn bodoli neu gronig. Nid oes angen i chi wneud cais am GHIC os oes gennych EHIC yn barod. Bydd eich EHIC yn parhau'n ddilys yn yr UE hyd nes y daw i ben.

Gellir cael y cerdyn GHIC newydd am ddim o [wefan swyddogol GHIC](#). Bydd y cerdyn fel arfer yn cyrraedd o fewn 10 diwrnod.

Cynghorir pob teithiwr o'r DU i'r UE yn gryf i gael yswiriant teithio yn ogystal â'r GHIC oherwydd efallai na fydd y GHIC yn cynnwys yr holl gostau sydd yn deillio o driniaeth feddygol angenrheidiol e.e. dychwelyd adref.

Byddwch yn ofalus o wefannau answyddogol, a allai godi tâl arnoch os byddwch yn gwneud cais drwyddynt. Mae EHIC neu GHIC yn rhad ac am ddim. I wneud cais am GHIC ewch i [www.nhs.uk/GHIC](http://www.nhs.uk/GHIC).

## **27. Beth yw'r trefniadau ar gyfer diogelwch gofal iechyd hirdymor ar gyfer pensiynwyr (deiliaid tystysgrif S1 yn flaenorol)?**

Ar ôl 31 Rhagfyr 2020, bydd rhai unigolion sydd yn symud eu man preswyl fel arfer i Aelod-wladwriaeth yr UE (neu i'r DU o Aelod-wladwriaeth) yn dal i allu cael gofal iechyd llawn tra'u bod yn yr Aelod-wladwriaeth honno. Fodd bynnag, ni fydd pobl sydd yn allforio pensiynau a budd-daliadau cymwys eraill bellach yn gymwys am driniaeth am ddim ar y GIG os byddant yn dychwelyd i'r DU, oni bai bod ganddynt esemptiad parhaus yn unol â'r Cytundeb Ymadael neu eu bod wedi eu diogelu gan Reoliadau Taliadau Gwasanaethau Iechyd Gwladol Cymru i Ymwelwyr Tramor 1989 a rheoliadau dywigio.

## **28. Beth yw'r trefniadau ar gyfer diogelwch gofal iechyd hirdymor i weithwyr (deiliaid tystysgrif S1 yn flaenorol)?**

Fel y trefniadau blaenorol, bydd rhai unigolion sydd yn symud eu man preswyl fel arfer i Aelod-wladwriaeth yr UE (neu i'r DU o Aelod-wladwriaeth) yn gallu cael gofal iechyd llawn tra'u bod yn yr Aelod-wladwriaeth honno. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr

trawsffiniol, rhai gweithwyr eraill ar draws ffiniau (fel morwyr) a rhai gweithwyr wedi eu hadleoli/'neilltuol'.

### **29. Pa drefniadau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer gofal iechyd wedi ei gynllunio (tystysgrif S2)?**

Mae trefniadau gofal iechyd wedi eu cynllunio yn parhau. Mae dinasyddion y DU yn dal i allu gwneud cais i gael triniaeth y maent yn gymwys amdani ar y GIG mewn cyfleuster a ariennir gan y llywodraeth mewn Aelod-wladwriaeth o'r UE.

Dylai darparwyr gofal iechyd barhau i ddefnyddio'r prosesau sydd eisoes wedi eu sefydlu i asesu a chyhoeddi'r awdurdodiad ar gyfer triniaeth (S2) ac i adfer y costau hyn gan Aelod-wladwriaethau.

Gyda symudiad rhydd yn dod i ben, bydd dinasyddion yr UE sydd yn symud i'r DU am fwy na chwe mis yn destun rheolaeth fewnfudo ac yn talu'r gordal iechyd mewnfudo fel rhan o unrhyw gais am fisa. Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau, lle mae Aelod-wladwriaeth yn dal i dalu eu costau gofal iechyd yn llawn, yn gallu cael ad-daliad o'r gordal. Efallai y codir tâl ar ymwelwyr tymor byr i'r DU sydd heb eu diogelu gan gytundeb newydd y DU-UE ar ofal iechyd cyfatebol, yn cynnwys preswylwyr blaenorol y DU, am driniaeth y GIG.

### **30. Cael gofal iechyd yng Nghymru ar ôl 1 Ionawr 2021**

Mae dinasyddion yr UE oedd yn byw'n gyfreithlon yng Nghymru cyn 31 Rhagfyr 2020 yn gallu defnyddio'r GIG yng Nghymru, a chael mynediad at wasanaethau'r GIG yn rhad ac am ddim, cyhyd â'u bod wedi gwneud cais am, ac wedi cael statws preswilydd sefydlog neu statws preswilydd cyn-sefydlog i allu parhau i fyw yn y DU. Gall dinasyddion yr UE sydd heb wneud cais a chael statws preswilydd sefydlog neu gyn-sefydlog, neu gael Tystysgrif Cais tra bod eu cais yn cael ei benderfynu, gael eu hystyried fel ymwelwyr tramor a gellir codi tâl arnynt am wasanaethau'r GIG. Aeth y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am Statws Preswilydd Sefydlog heibio ar 30 Mehefin 2021 ond gellir gwneud ceisiadau hwyr mewn rhai amgylchiadau – mae mwy o wybodaeth ar gael yn [Cynllun Preswilydd Sefydlog yr UE: gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr hwyr - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/cynllun-preswilydd-sefydlog-yr-ue-gwybodaeth-ar-gyfer-ymgeiswyr-hwyr)

I gael eich ystyried i fod yn preswilio fel arfer, mae'n rhaid eich bod yn byw yng Nghymru ar sail gyfreithiol a sefydlog am y tro. Gellir gofyn i chi am dystiolaeth o hyn.

### **31. Rwyf yn ddinesydd o Norwy, a wyf yn gallu defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru o hyd?**

Yn unol â chytundebau hawliau dinesydd a gytunwyd gyda Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir, mae dinasyddion y gwledydd hyn sydd yn byw yn gyfreithiol yn y DU ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 yn gallu defnyddio'r GIG fel yr oeddent yn flaenorol.

Fodd bynnag, nid yw'r cytundebau hyn yn cynnwys dinasyddion o'r gwledydd hyn sydd yn symud i'r DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

Ar gyfer Norwy, gall dinasyddion y DU ddefnyddio pasbort y DU i gael gofal iechyd meddygol angenrheidiol yn y wlad honno (er enghraifft triniaeth frys, neu i drin cyflwr sydd eisoes yn bodoli).

### **32. Rwyf yn ddinesydd Gwyddelig sydd yn byw yn y DU, a wyf yn gallu parhau i dderbyn gofal iechyd?**

Mae dinasyddion Gwyddelig sydd yn byw yn y DU, a dinasyddion Prydeinig sydd yn byw yn Iwerddon, yn parhau i gael diogelwch gofal iechyd yn wlad lle maent yn byw. Mae hyn oherwydd cytundebau hirsefydlog yn unol â Chytundeb yr Ardal Deithio Gyffredin ac fel rhan o'r trefniadau gofal iechyd cyfatebol gyda'r UE.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am yr [Ardal Deithio Gyffredin rhwng y DU ac Iwerddon](#) yn GOV.UK

### **33. Rwyf yn astudio yng Nghymru, a wyf yn gallu defnyddio fy EHIC neu Dystysgrif Amnewid Dros Dro o hyd?**

Gall dinasyddion o'r UE, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir a ddechreuodd astudio mewn sefydliad addysg uwch wedi ei achredu yn y DU ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 ddefnyddio eu EHIC ar gyfer gofal iechyd meddygol angenrheidiol hyd at ddiwedd eu cwrs, waeth beth yw eu cenedligrwydd. Dylai unigolion fod wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE os yw eu cwrs yn ymestyn y tu hwnt i 30 Mehefin 2021.

Bydd angen i ddinasyddion yr UE, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir y gwnaeth eu cwrs astudio yn y DU ddechrau ar ôl 1 Ionawr 2021 ac yn parhau am fwy na 6 mis, dalu'r gordal iechyd mewn fudo fel rhan o'u cais am fisa myfyriwr. Am gwrs astudio byrrach, gall dinasyddion yr UE, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir barhau i ddefnyddio eu EHIC ar gyfer gofal iechyd meddygol angenrheidiol.

Gallwch ganfod mwy ar Astudio yn y DU: canllawiau ar gyfer myfyriwyr yr UE (<https://www.gov.uk/guidance/studying-in-the-uk-guidance-for-eu-students>) yn GOV.UK.

### **34. A yw'r gyfarwyddeb iechyd drawsffiniol yn dal yn berthnasol nawr bod y DU wedi gadael yr UE?**

Nid yw triniaeth yn unol â'r Gyfarwyddeb Drawsffiniol wedi parhau yn unol â'r cytundeb rhwng y DU a'r UE. Ni ellir, felly, defnyddio'r Gyfarwyddeb bellach gan ddinasyddion y DU i gael triniaeth gofal iechyd yn yr UE, ar wahân i'r amgylchiadau isod:

Gall cleifion ddefnyddio llwybr y Gyfarwyddeb i gael ad-daliad am driniaeth a dderbyniwyd:

- hyd at flwyddyn ar ôl 11pm ar 31 Rhagfyr 2020; neu
- o fewn y cyfnod a nodir ar gyfer cymeradwyo awdurdodiad ymlaen llaw os yw hyn yn fwy na blwyddyn.

Bydd angen i gleifion sicrhau:

- bod y meini prawf presennol ar gyfer ad-daliad yn cael eu bodloni; a
- bod y driniaeth wedi dechrau, neu'r awdurdodiad ar gyfer y driniaeth wedi ei geisio, cyn 11pm ar 31 Rhagfyr 2020.

### **Cyflenwi Meddyginiaethau a chyflenwadau meddygol eraill**

### **35. A yw gadael yr UE wedi effeithio ar gyflenwad meddyginiaethau?**

Mae Cymru'n rhan o drefniadau ar draws y DU ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau, gan weithio'n agos gyda'r diwydiant fferyllol trwy gydol y broses o adael yr UE. I leihau unrhyw darfu tymor byr posibl ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, cafodd cyfres o drefniadau eu sefydlu, yn cynnwys Llywodraeth yn DU yn sicrhau gallu cludo nwyddau ychwanegol yn cynnwys nwyddau 'Categori 1' yn cynnwys meddyginiaethau a chyflenwadau meddygol. Yn ogystal, roedd ymgysylltu rheolaidd â chyflenwyr meddyginiaethau unigol gyda chymorth ynghylch y camau yr oedd angen iddynt eu cymryd. Mae'r system Genedlaethol Ymateb i Darfu ar Gyflenwadau ar draws y DU wedi cael ei sefydlu fel dull o ymateb i achosion penodol o darfu ar gyflenwadau, os bydd hyn yn codi, ac mae Cymru wedi bod yn rhan o hyn. Mae'r trefniadau amrywiol sydd wedi eu sefydlu wedi gweithio'n dda ac nid ydym wedi gweld unrhyw newidiadau sylweddol yng nghyflenwad meddyginiaethau ers gadael yr UE.

Cyhoeddwyd [Cylchlythyr Iechyd Cymru](#) ym mis Rhagfyr 2020 yn rhoi trosolwg o'r trefniadau ar gyfer sicrhau parhad cyflenwad ar gyfer meddyginiaethau.

### **36. Pa gynlluniau sydd wedi eu sefydlu os bydd prinder meddyginiaethau?**

Mae Llywodraeth y DU, GIG Cymru a Llywodraeth Cymru yn monitro'r meddyginiaethau a chadwyn gyflenwi cynnyrch meddygol yn ofalus. Cyn gadael yr UE, roedd prinder meddyginiaethau eisoes yn digwydd am amrywiaeth o resymau. O ganlyniad, mae prosesau wedi eu sefydlu i reoli tarfu ar gyflenwad meddyginiaethau. Caiff unrhyw broblemau gyda chyflenwad meddyginiaethau penodol, yn ymwneud â gadael yr UE, eu rheoli yn unol â'r gweithdrefnau presennol. Mae'r rhain yn cynnwys systemau i alluogi negeseuon i gael eu rhaedru'n gyflym i GIG Cymru gan ddarparu gwybodaeth am y prinder a'r camau a argymhellir. Fel hyn, mae rhagnodwyr a fferyllfeydd yn cael eu hysbysu'n gyflym am y sefyllfa ac yn gallu ymateb yn unol â hynny.

Mae fferyllfeydd yn chwarae rôl hanfodol yn cynnal cyflenwadau. Yn ogystal, cyflwynwyd deddfwriaeth yn galluogi Gweinidogion i gyhoeddi protocolau prinder difrifol (SSP) os oes angen. Mae SSP yn caniatáu i fferyllfeydd cymunedol amnewid meddyginiaethau, yn unol â'r protocol a chytundeb y claf, yn lle cyflenwi'r feddyginiaeth a nodir ar y presgripsiwn, felly'n osgoi'r angen i glaf ddychwelyd at eu rhagnodwr.

### **37. Sut mae gadael yr UE yn effeithio ar dreialon clinigol?**

Caiff treialon clinigol eu rheoli'n genedlaethol yn y DU gan yr MHRA, gyda gofynion a gweithdrefnau wedi eu nodi yn Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004. Mae'r rhain yn dal mewn grym ond cânt eu haddasu gan ddefnyddio pwerau yn unol â Deddf yr UE (Ymadael) (EUWA) er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas at y diben yn y DU. Ar gyfer treialon a arweinir gan y DU sydd yn rhychwantu sawl gwlad Ewropeaidd, bydd angen i'r rhain bellach gyflogi unigolyn neu sefydliad yn yr UE i weithredu fel cynrychiolydd cyfreithiol er mwyn sicrhau y gellir cynnal y treial ar draws y DU a'r UE. Mae canllawiau ar gael yn <https://www.gov.uk/government/organisations/medicines-and-healthcare-products-regulatory-agency>

Daw cyflenwadau ar gyfer treialon clinigol o fewn cwmpas rhaglenni wrth gefn ar gyfer cyflenwadau y Cyfnod Pontio o'r UE ar draws y DU, ac mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gysylltiedig â'r gwaith hwn trwy'r Grŵp Ymateb i Darfu ar Dreialon Clinigol.

### **Cyflenwi Dyfeisiadau Meddygol a Deunyddiau Traul Clinigol**

### **38. Pa effaith sydd wedi bod ar gyflenwi dyfeisiadau meddygol a deunyddiau traul clinigol (MDCC) ar ôl gadael yr UE?**

Yng Nghymru, rydym wedi cymryd rhan mewn trefniadau ar draws y DU ac wedi gwneud paratodau ychwanegol er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o MDCC. Mae hyn wedi cynnwys gweithio trwy'r systemau Cenedlaethol Ymateb i Darfu ar

Gyflenwadau yng Nghymru ac ar draws y DU i ddatrys unrhyw faterion penodol o ran tarfu ar gyflenwadau.

Yng Nghymru, rydym hefyd wedi cynnal ein stoc cenedlaethol canolog ein hunain o MDCC fyddai'n cael eu defnyddio os oes unrhyw darfu. Yn ystod y Cyfnod Pontio, fe wnaethom hefyd weithio gyda meddygon i nodi gofynion mewn meysydd ychwanegol a gweithio i gynyddu stociau canolog o eitemau pwysig a ddefnyddir ym maes gofal cymdeithasol.

Mae'r trefniadau cadarn hyn wedi helpu i sicrhau nad ydym wedi gweld unrhyw darfu sylweddol ers gadael yr UE. Mae'r sefyllfa yn parhau i gael ei monitro'n ofalus wrth i gyflenwyr a chludwyr barhau i addasu i systemau a phrosesau ffiniau newydd. Os oes unrhyw broblemau, bydd Cydwasanaethau'r GIG yn parhau i gydlynu atebion gan weithio gyda meddygon a'r trefniadau ar draws y DU lle y bo'n briodol.

Mae'n bwysig bod unrhyw broblemau a ragwelir o ran cyflenwi yn cael eu hystyried yn llawn ar lefel leol gan ddefnyddio prosesau busnes arferol. Dylai meddygon a thimau lleol weithio'n agos gyda'u staff caffael a chadwyn gyflenwi ranbarthol, fydd â mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf ac yn gallu gweithio gyda chydweithwyr Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG fel y bo angen.

Yn ogystal ag MDCC, gwnaed gwaith hefyd i adolygu parodrwydd cyflenwyr ar draws ystod eang o gategoriâu o gynnyrch a gwasanaethau ychwanegol sydd yn bwysig i iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys gwasanaethau cynnal a chadw, tecstilïau a deunyddiau glanhau. Mae mesurau priodol wedi eu sefydlu ar draws y categorïau amrywiol ac nid ydym wedi gweld unrhyw broblemau sylweddol.

### **Rhannu data, Prosesau a Mynediad**

#### **39. Pa gynlluniau sydd mewn perthynas â data personol a diogelu data gan ein bod bellach wedi gadael yr UE?**

Roedd y TCA rhwng y DU a'r UE yn darparu 'dull pontio' ar gyfer llif rhydd data personol o'r UE a Gwladwriaethau EFTA Ardal Economaidd Ewrop i'r DU, tra bod penderfyniadau am ddigonolrwydd data yr UE ar gyfer y DU yn cael eu hystyried yn ffurfiol, ac am ddim hwy na chwe mis (o 1 Ionawr 2021). Ystyriodd y DU, ar sail pontio, fod yr UE a Gwladwriaethau EFTA Ardal Economaidd Ewrop yn ddigonol i alluogi llifau data o'r DU.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen i holl sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol gadw eu Cofrestrau Asedau Gwybodaeth wedi eu hadolygu i nodi a yw eu systemau yn storio neu'n prosesu data y tu allan i'r DU. Yn y nifer fach o achosion lle mae hyn yn digwydd, mae mesurau lliniaru priodol wedi bod yn angenrheidiol, er enghraifft, sefydlu dulliau trosglwyddo amgen lle bo angen.



Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ar 28 Mehefin 2021 fod penderfyniadau digonolrwydd ar gyfer y DU wedi cael eu cymeradwyo, cyn diwedd y 'dull pontio'. Daeth y penderfyniadau hyn i rym ar unwaith, ac maent yn galluogi llif rhydd o ddata personol o'r UE/Ardal Economaidd Ewrop i'r DU. Mae'r penderfyniadau yn rhoi parhad o ran llif data ac nid oes unrhyw newidiadau chwaith i'r ffordd y caiff data ei anfon o'r DU i'r UE/Ardal Economaidd Ewrop.

Dylai sefydliadau barhau i ymweld â gwefan y [Comisiynydd Gwybodaeth](#) i ganfod mwy am lif data personol rhwng yr UE a'r DU, ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau yn y dyfodol a allai effeithio arnoch chi neu eich sefydliad.

### **Cydweithrediad diogelwch iechyd**

#### **40.A fydd y DU yn dal i weithio gyda'r UE ar faterion diogelwch iechyd a bygythiadau i iechyd ar draws ffiniau?**

Mae'r cytundeb gyda'r UE yn cynnwys trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y DU a'r UE os bydd bygythiad difrifol ar draws ffiniau i iechyd, sydd yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun COVID-19. Mae'r DU yn gallu gwneud cais am fynediad i System Rybuddio ac Ymateb Brys yr UE yn ymwneud â bygythiad difrifol i iechyd ar draws ffiniau er mwyn gallu cyfnewid y wybodaeth yma a chydlynu mesurau i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae hyn eisoes wedi ei sefydlu yn ymwneud â COVID-19. Yn ogystal, mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer cydweithredu ar faterion gwyddonol a thechnegol rhwng y DU â Chanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC).

Mae'r trefniadau diogelwch iechyd a gytunwyd rhwng y DU a'r UE hefyd yn cael eu gweithredu trwy Reoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021 a roddwyd gerbron Senedd y DU ym Mehefin. Bydd y rheoliadau hyn yn darparu cyfundrefn ddeddfwriaethol ar gyfer gwyladwriaeth epidemiolegol ac ymateb i fygythiadau i iechyd ar draws ffiniau er mwyn sicrhau ymateb wedi ei gydlynu yn y DU i ddiogelu iechyd dynol, yn ogystal â darparu ymateb effeithiol i rwymedigaethau rhyngwladol.

#### **Sut i Ofyn Mwy o Gwestiynau**

**Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ychwanegol heb eu cynnwys yn y Cwestiynau Cyffredin hyn i:**

**[BrexitFAQs@welshconfed.org](mailto:BrexitFAQs@welshconfed.org)**